NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Dacomitinib ar gyfer canser yr ysgyfaint nad yw wedi cael ei drin lle nad yw'r celloedd yn fach sydd wedi profi'n bositif am y mwtadiad EGFR

14 Awst 2019

Mae dacomitinib (Vizimpro) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach (NSCLC) sydd wedi profi'n bositif am y mwtadiad derbynnydd ffactor twf epidermol (EGFR) sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig mewn oedolion nad ydynt wedi cael triniaeth ar gyfer NSCLC o'r blaen.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3500-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.